**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)

Medi 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddCyllid



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)

Medi 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd ar gyfer goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Nick Ramsay**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Roedd yr Aelod a ganlyn yn bresennol fel dirprwy aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro

# Cynnwys


Argymhellion y Pwyllgor ..... 5

1. Cefndir a Throsolwg ..... 7

2. Crynodeb o gostau a manteision ychwanegol y Bil ..... 8

3. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ..... 10

4. Goblygiadau cost ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (“CNC”) ..... 14

5. Goblygiadau cost i Lywodraeth Cymru ..... 18

6. Gwahanu gwastraff ..... 21

7. Cost gweithredu darpariaethau is-ddeddfwriaeth ..... 24

Atodiad - Tystion ..... 26

## Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y tabl cryno sy'n dangos y costau a'r manteision yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil hwn yn cael ei newid, i ddangos tablau ar wahân ar gyfer costau a manteision amgylcheddol y pennwyd gwerth ariannol iddynt. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno costau a manteision yn y modd hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, gan y credwn fod y dull hwn yn ddryslyd ac yn anfwriadol gamarweiniol. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gytuno ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth am gostau a manteision mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cefnogi'r awgrym bod y Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol yn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil, a bod y Gweinidog yn ymrwymo i sicrhau bod adolygiad o'r costau ar gael bedair/bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Bil. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch cywirdeb costau mewn perthynas â pharatoi a llunio datganiadau ardal a lefel y dyraniadau cyllid sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni dyletswyddau cyfredol a'r rheini a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau y caiff y gwaith hwn ei ariannu'n ddigonol. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn rhoi syniad o'r costau sy'n gysylltiedig â Thrwyddedu Morol. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 6.** Hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd y bydd costau ar gyfer y cwmnïau gwastraff hyn yn is yn y tymor canolig i'r hirdymor ac mae'n argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau y gallant barhau i weithredu drwy gydol y cyfnod trawsnewid a bod cyllid ar gael i'r sefydliadau hyn. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 7.** Hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru ddilyn esiampl y Gweinidog Iechyd yn gyson, a nododd y byddai'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2015 yn cael eu diweddaru wrth i is-ddeddfwriaeth gael ei ddrafftio a'i gostio. (Tudalen 25)

# 1. Cefndir a Throsolwg

1. Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Cymru) ("y Bil") yn y Cyfarfod Llawn gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ("y Gweinidog") ar 12 Mai 2015.

2. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil gan y Gweinidog ar 9 Gorffennaf 2015.

3. Mae'r Bil yn helaeth ac yn ymwneud ag wyth maes polisi gwahanol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn nodi'r amcanion polisi a ganlyn ar gyfer y ddeddfwriaeth:

- Rhoi deddfwriaeth ar waith a fydd yn galluogi rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig.
- Sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Gwella'r defnydd o adnoddau mewn perthynas â defnyddio bagiau siopa a rheoli gwastraff.
- Gwneud y gyfraith yn gliriach ar gyfer nifer o'r cyfundrefnau rheoleiddio cyfredol, gan gynnwys trwyddedu morol, pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn, draenio tir a rheoli'r perygl o lifogydd.

4. Mae crynodeb o ddarpariaethau'r Bil wedi'i lunio gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad.

# 2. Crynodeb o gostau a manteision ychwanegol y Bil

5. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl i'w gael yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r Asesiad yn cyflwyno costau a manteision yr opsiynau a ystyriwyd o dan bob adran sydd wedi'i strwythuro o amgylch prif rannau'r Bil. Mae'r Asesiad yn cynnig amryw ddewisiadau o dan bob adran o'r Bil ynghyd â chostau a manteision pob opsiwn ac asesiad o'r graddau y maent yn cyflawni nodau'r Bil.

6. Caiff y costau a'r manteision eu cyfrifo dros gyfnod o ddeng mlynedd (2015-2025), gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt gwerth 3.5 y cant, fel yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Golyga hyn y caiff yr holl gostau a'r manteision eu cyflwyno fel gwerth presennol.

7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro ei fod wedi cael ei lywio gan waith a wnaed gan dri set o ymgynghorwyr annibynnol. Helpodd Eftec gyda'r adran rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, gweithiodd AEA Ricardo ar y taliadau am fagiau siopa a darparodd Eunomia Consulting and Research Ltd waith modelu senario ar gyfer yr adran casglu a gwaredu gwastraff.

8. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfrifo bod cyfanswm y gost ychwanegol dros ddeng mlynedd gyntaf y Bil yn tua £291 miliwn, sy'n cael ei gydbwyso gan arbedion o £359 miliwn, i roi arbediad net o £68 miliwn. Mae'r Asesiad yn egluro bod y cyfnod deng mlynedd wedi cael ei ddewis i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") i ymgorffori'r dulliau newydd sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

9. Rhan 1 y Bil, Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, sy'n achosi'r gost gyffredinol ychwanegol fwyaf o hyd at £4.5 miliwn. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn datblygu Polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol a CNC yn cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

10. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn dadansoddi'r costau fesul grŵp a sefydliad yr effeithir arnynt gan bob opsiwn yn y Bil. Dangosir hynny yn Nhabl 1 isod.

***Tabl 1: Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir fesul grŵp neu'r sefydliad yr effeithir arno; 2016-17 i 2025-26***

*£m*

| Grŵp neu sefydliad yr effeithir arno | Cost | Mantais | Mantais / cost net (negyddol) |
|---|---|---|---|
| Defnyddwyr | 115.5 | - | **115.5** |
| Busnes Rheoli Gwastraff | 155.0 | -70.7 | **84.3** |
| Gweithgynhyrchwyr | 8.3 | - | **8.3** |
| CNC | 5.4 | -0.7 | **4.8** |
| Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes | 3.3 | - | **3.3** |
| Llywodraeth Cymru | 2.4 | -0.1 | **2.3** |
| Awdurdodau Lleol | 0.4 | - | **0.4** |
| | | | |
| Cyfanwerthwyr | - | -0.1 | **-0.1** |
| Awdurdodau Carthffosiaeth | - | -7.1 | **-7.1** |
| Refeniw Treth | - | -19.3 | **-19.3** |
| Manwerthwyr | 0.8 | -37.7 | **-36.9** |
| Rhoddion Elusennol | - | -75.5 | **-75.5** |
| Effaith Amgylcheddol | - | -148.0 | **-148.0** |
| | | | |
| **CYFANSWM** | **291.1** | **-359.1** | **-68.0** |

# 3. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## Cadernid yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

11. Mae rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn cwestiynu cadernid yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae CLA Cymru (y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad) yn pryderu nad oedd canlyniadau'r treialon rheoli tir ar sail ardal a gynhaliwyd gan CNC yn barod mewn pryd i'w defnyddio fel rhan o sail dystiolaeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae CLA Cymru hefyd yn cwestiynu pa mor gadarn yw'r amcangyfrifon cost ar gyfer CNC, ac yn gofyn a oes dadansoddiad digonol o'r costau a'r manteision wedi'i gynnal o ran cytundebau rheoli tir.[1]

12. Mae AMDEA (Association of Manufacturers of Domestic Appliances)[2], Catering Equipment and Supplies[3] a Mechline Developments Ltd[4] yn cwestiynu'r ffynonellau, y tybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr adran o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyfrifo'r arbedion yn sgil gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos. Mae AMDEA yn nodi hefyd na aed ati i ymgynghori ag unrhyw arbenigwyr o'u diwydiant nhw[5] wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Asesiad yn nodi i Lywodraeth Cymru gwrdd â gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr unedau gwaredu gwastraff fel rhan o'r ymgynghoriad ar y papur gwyn.[6]

## Gwerth ariannol y manteision

13. Mae'r Asesiad yn nodi y gallai'r opsiwn a ffefrir yn Rhan 1 o'r Bil arwain at fanteision o dros £2 biliwn y flwyddyn, fodd bynnag, nid yw'n bosibl pennu cyfran y manteision y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r Bil ac felly nid yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl cryno. Yn yr un modd, ar gyfer Rhan 2 o'r Bil sy'n ymwneud â Newid Hinsawdd, nid yw'r manteision ariannol wedi'u cynnwys yn y tabl cryno am mai ffigur amcangyfrif ar gyfer y DU sydd ar gael, ac nid ffigur ar gyfer Cymru.

14. Amcangyfrifir y bydd Rhannau eraill y Bil yn niwtral o ran cost neu y byddant yn sicrhau arbedion. Amcangyfrifir y bydd Rhan 4, Casglu a

[1] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, EB 39
[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, EB 14
[3] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, EB 30
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, EB 37
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, EB 14
[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Memorandwm Esboniadol, Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Gwaredu Gwastraff, yn arbed £58.7 miliwn dros ddeng mlynedd, yn bennaf oherwydd yr amcangyfrif o £139.8 miliwn mewn manteision amgylcheddol ac arbedion ar gyfer cwmnïau rheoli gwastraff o £70.7 miliwn. Amcangyfrifir y bydd Rhan 3 o'r Bil sy'n codi tâl gofynnol ar bob math o fag siopa, yn arbed £8.3 miliwn. Ar ben hynny, byddai gan werthwyr ddyletswydd i roi eu henillion net o'r taliadau am fagiau siopa i achosion da, gan arbed £7.5 miliwn ychwanegol.

15. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi gwerth ariannol manteision ar gyfer nifer o rannau, yn benodol ar gyfer Rhan 3 – Bagiau Siopa (£132 miliwn ac £8.7 miliwn) a Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff (£217.6 miliwn). Yn yr adran ar fagiau siopa, rhoddion elusennol a'r refeniw treth sy'n sicrhau'r manteision mwyaf. Yn yr adran Casglu a Gwaredu Gwastraff, y budd i'r amgylchedd yw'r fantais fwyaf (£140 miliwn), ac yn dilyn hynny, manteision i fusnesau rheoli gwastraff ac awdurdodau carthffosiaeth.

16. Mae'r tabl cryno'n nodi mai dim ond gwerth ariannol y manteision a gwmpesir yng nghyfanswm cyffredinol manteision y Bil, ac mae'n dod i'r casgliad:

> "Inclusion of non-monetised benefits would be anticipated to greatly increase this figure."[7]

17. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi, fel gyda'r rhan fwyaf o Filiau, na fu modd mesur y manteision sy'n gysylltiedig â'r amrywiol opsiynau, a chyflwynwyd disgrifiad ansoddol ochr yn ochr â llawer o'r manteision.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

18. Holwyd y Gweinidog ynghylch sut y cafodd gwerth ariannol y manteision sy'n ymwneud ag effaith amgylcheddol eu mesur. Mewn ymateb i hyn, rhoddodd y Gweinidog enghreifftiau mewn perthynas ag ecosystemau[8] a thwristiaeth[9]. Rhoddodd y Gweinidog ragor o enghreifftiau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn ei dystiolaeth

---

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Memorandwm Esboniadol, Bil yr Amgylchedd (Cymru)
[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 24
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 27

ysgrifenedig i'r Pwyllgor[10]. Dywedodd y Gweinidog fod mesur y manteision fel hyn yn ddull dibynadwy.[11]

19. Pan holwyd y Gweinidog sut y caiff manteision amgylcheddol gwerth £140 miliwn eu cyfrifo dros ddeng mlynedd, dywedodd:

> "We think it gives a more holistic picture if we are able to model this over the long term. In fact, what I often say within the environmental field is actually, both in measurements financially but also about impact, that it's very difficult to make assessments or very presumptuous to make assessments on one year's activity because of fluctuations in the programme and how the environment operates. You get a much more stable effect if you can do it long term. So, we've done it over a 10-year period. The figures, we believe, are robust, and the figures are reflected in the activity of savings longer term."[12]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

20. Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch sut y caiff costau a manteision yn y Bil hwn eu cyflwyno. Mae'r Aelodau'n derbyn y bydd y Bil yn debygol o sicrhau manteision amgylcheddol, ond mae ceisio cysylltu'r manteision hyn mewn ffordd ddiriaethol â chostau yn rhoi argraff ffug y caiff manteision ariannol eu sicrhau.

21. Wrth ystyried y dull hwn ar gyfer gwerth ariannol y manteision, ystyriodd y Pwyllgor ymateb Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei fod yn pryderu nad oedd y tabl cryno sy'n nodi costau a manteision y Bil yn dangos y costau'n glir. Dywedodd:

> "Nid oes dim byd o'i le ar ddarparu prisiadau â gwerth ariannol o fuddiannau, ond yn fy marn i gallai fod yn gamarweiniol i fuddiannau o'r fath gael eu cymysgu yng nghanol tabl o ffigurau arian parod."[13]

---

[10] FIN(4)-18-15 P5 – Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 32
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 39
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, RISC48

22. Mae'r Pwyllgor yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pennu gwerth ariannol y manteision sy'n gysylltiedig â'r Bil. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod potensial i gamarwain yn y modd y cyflwynir y costau a'r manteision â gwerth ariannol yn y Bil hwn, yn yr un modd ag y nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn achos y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

23. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch cywirdeb rhai o'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a byddai'n argymell bod y Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol yn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu i brofi cywirdeb y costau.

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y tabl cryno sy'n dangos y costau a'r manteision yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil hwn yn cael ei newid, i ddangos tablau ar wahân ar gyfer costau a manteision amgylcheddol y pennwyd gwerth ariannol iddynt.**

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno costau a manteision yn y modd hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, gan y credwn fod y dull hwn yn ddryslyd ac yn anfwriadol gamarweiniol. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gytuno ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth am gostau a manteision mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.**

**Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cefnogi'r awgrym bod y Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol yn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil, a bod y Gweinidog yn ymrwymo i sicrhau bod adolygiad o'r costau ar gael bedair/bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Bil.**

# 4. Goblygiadau cost ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC")

24. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi manylion am gostau net ychwanegol o £4.8 miliwn i CNC o dan sawl rhan o'r Bil, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal o dan Ran 1 - Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol ac o ran arolygu eiddo annomestig i orfodi'r gofyniad i wahanu gwastraff o dan Ran 4 - Casglu a Gwaredu Gwastraff. O dan Ran 6 – Trwyddedu Morol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y dylai'r costau i CNC fod yn niwtral, am y bydd yn gallu adennill mwy o gostau a bydd y costau yn cael eu talu gan ddefnyddwyr y system trwyddedu morol.

25. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad diweddar, dywedodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys RSPB Cymru, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, Parciau Cenedlaethol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Cymru, CIWM Cymru, Viridor ac Undeb Amaethwyr Cymru, eu bod yn dal i bryderu nad oes digon o adnoddau gan CNC i gyflawni ei holl swyddogaethau a'i ddibenion sy'n newid fel y nodir yn y Bil a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

26. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd CNC ei fod wrthi'n datblygu dealltwriaeth well o'r costau a bydd yn trafod cyllid gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai datblygu datganiadau ardal mewn 11-14 ardal ledled Cymru yw'r opsiwn a ffefrir. Fodd bynnag, mae CNC yn nodi y dylid ystyried yr opsiynau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel enghreifftiau dangosol yn hytrach na'r dull a ffefrir gan CNC.

### Adnoddau a staff ychwanegol

27. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi, er mwyn gallu paratoi a chynhyrchu Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, y bydd angen i CNC gael staff sy'n meddu ar sgiliau technegol digonol, a gallai hynny olygu y bydd angen i staff weithio oriau ychwanegol a chael sgiliau ychwanegol ynghyd â hyfforddiant ac offer dadansoddol. O ran cynhyrchu datganiadau ardal, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd angen adnoddau staff ychwanegol ar CNC, ac y gallai hynny ffurfio rhan o'r Tîm Pontio a benodwyd am y tro cyntaf ym mis Hydref 2014 er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

28. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mae CNC yn egluro iddo gyflwyno'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd (yn ystod yr haf a'r hydref yn 2014) i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynghylch y datganiadau ardal. Mae CNC yn nodi ei fod yn amcangyfrif y costau ar sail dealltwriaeth well o'r newidiadau y bydd eu hangen bellach, ac mae'n disgwyl iddynt fod yn uwch:

> "2.4.1 (…)The RIA sets out four options for implementation of the Area Statements. We acknowledge that these were developed as illustrative examples and should not be seen as NRW's preferred approach. As we have refreshed our own NRM transformational programme, we have developed a better understanding of the scale of the changes we need to implement such as IT, staff training, new systems and process to develop Area Statements. These will undoubtedly incur additional costs which we are currently estimating."[14]

**Effaith gronnol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2015**

29. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2015 oll eu cynllunio i gefnogi datblygu cynaliadwy a chyflawni nodau llesiant. Mae'n anodd gwahanu costau a manteision Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) am eu bod yn gorgyffwrdd, yn arbennig yn yr adran Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol sy'n ymwneud â'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

30. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2015 yn gosod costau ar gyrff cyhoeddus eraill ac mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Amgylchedd (Cymru) 2015 yn egluro y bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rannu gwybodaeth a chydweithio er mwyn helpu CNC i baratoi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal o dan y gofynion a nodir ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad oes cost ychwanegol i gyrff llywodraethu cydweithredol cyhoeddus eraill o dan Ran 1 o Fil yr Amgylchedd (Cymru) 2015.

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, EB 41

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

31. Gofynnwyd i'r Gweinidog ymateb i'r pryderon nad oes gan CNC ddigon o adnoddau i weithredu'r Bil. Pwysleisiodd y Gweinidog ei fod wedi cael trafodaethau â CNC ynghylch costau, ac er bod angen trafod manylion eraill o hyd, maent yn cytuno'n gyffredinol ar y ffordd ymlaen.[15]

32. Mewn perthynas â'r effaith gronnol rhwng y tri darn o ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar waith CNC, dywedodd y Gweinidog:

> "The jigsaw of this department of legislation is coming together. We've worked very hard to make sure that the overlaps in the Bill are fully understood, and we have provided information to committee with regard to how they interact together. What we've been very clear about is that we didn't double count some of those issues. So, there are things within this Bill that will help NRW and other bodies on their duties around the future generations Act, in terms of the environmental impact that they have to deal with in this Bill, that will have the outcome that is required by the future generations Act. So, you won't have to do it twice. It's a case of doing it once, which will have an effect on another Bill. So, in the RIA we've made sure we've been thorough in making sure what actions you have to do in this Bill, taking into account either the planning Bill or the future generations Act."[16]

33. Holwyd y Gweinidog ynghylch a yw gwir oblygiadau'r Bil hwn ar gyfer CNC o ran costau a staff yn hysbys. Dywedodd y Gweinidog:

> "We put in the RIA figures that we believe are accurate to the cost of the provision of services by NRW. We don't believe that they are disputed by NRW, although there are obviously issues of detail that we're happy to speak about and to continue to work with the organisation in terms of how they will enact that. We don't believe we're miles away. I've taken through Bills before where I've had interesting discussions with the WLGA on their figures and our figures, and, towards the end of the Bill, they've come much closer together. The irony of this is that

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 129
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 132

NRW are very close to us on these numbers already, and we think we are accurate in that proposal."[17]

34. Pan holwyd y Gweinidog ymhellach ynghylch sawl datganiad ardal fydd, dywedodd nad oedd yr ateb i'r cwestiwn hwnnw ar gael.[18]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

35. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2015 oll eu cynllunio i gefnogi datblygu cynaliadwy a chyflawni nodau llesiant. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd gwahanu costau a manteision Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) am eu bod yn gorgyffwrdd, yn arbennig yn yr adran Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol sy'n ymwneud â'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

36. Fodd bynnag, roedd yn amlwg wrth drafod costau ac effaith y Bil hwn ynghyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gyda'r Gweinidog, fod ei farn ar p'un a oedd costau'n ddigonol yn y Bil yn wahanol i farn CNC yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

37. Roedd yn amlwg i'r Aelodau nad oedd llawer o'r manylion am gostau'n ddigonol oherwydd y ffactorau anhysbys yn cyflwyno'r Bil, fel nifer y datganiadau ardal. Hyd nes bod manylion o'r fath ar gael, mae elfen o ansicrwydd ynghylch y gost wirioneddol i CNC.

**Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch cywirdeb costau mewn perthynas â pharatoi a llunio datganiadau ardal a lefel y dyraniadau cyllid sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni dyletswyddau cyfredol a'r rheini a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau y caiff y gwaith hwn ei ariannu'n ddigonol.**

[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 137
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 153

# 5. Goblygiadau cost i Lywodraeth Cymru

38. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau net ychwanegol o £2.3 miliwn, yn cynnwys £2.1 miliwn ar gyfer costau gosod a gweinyddu'r cyllidebau carbon, ynghyd â cheisio cyngor annibynnol ar y lefel y dylid gosod y cyllidebau carbon. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu £0.2 miliwn mewn amser staff i ddatblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

39. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y costau i Lywodraeth Cymru o baratoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cael eu "rheoli o fewn y cyfyngiadau cyllideb presennol a thrwy reoli cyllid yn fewnol".[19] Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn yr ymgynghoriad ynghylch datblygu'r polisi ond mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd angen cydweithio ac ystyried y dystiolaeth er mwyn bodloni'r gofyniad i arfer yr egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi unrhyw gostau ar gyfer y gweithgareddau ymgynghori hyn.

40. Mae dyraniad cyllid Refeniw a Chyfalaf yr adran Cyfoeth Naturiol wedi gostwng yn sylweddol o £438 miliwn yn yr Ail Gyllideb Atodol ym mis Mehefin 2014-15 i £404 miliwn yn 2015-16, yn ôl Cyllideb Atodol Gyntaf mis Mehefin 2015.

**Trwyddedu Morol**

41. Mae adrannau 77 i 81 o'r Bil yn ymdrin â darpariaethau i ddiwygio *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* i alluogi Llywodraeth Cymru i godi ffioedd am ystod ehangach o weithgareddau yng nghyswllt trwyddedu morol, gan gynnwys codi ffi am gyngor cyn gwneud cais, monitro amodau trwyddedau morol ac amrywio neu drosglwyddo trwydded. Ar hyn o bryd, mae swyddogaethau trwyddedu morol wedi'u dirprwyo i CNC gan Weinidogion Cymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai nod y darpariaethau yw sicrhau y gellir adennill costau'r gwasanaethau a ddarperir i'r rhai sy'n gwneud cais am drwydded forol.

42. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru a CNC wrthi'n cynnal adolygiad o ffioedd trwyddedau morol. Yn ogystal ag ystyried lefel y ffioedd y dylid eu codi, bydd yr adolygiad hefyd yn

[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Memorandwm Esboniadol, Bil yr Amgylchedd (Cymru)

“nodi cyfleoedd i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ac i symleiddio’r gwasanaeth trwyddedu morol” ac ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganlyniadau'r adolygiad cyfredol o ffioedd.[20]

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

43. Pan holwyd y Gweinidog am y costau i Lywodraeth Cymru, roedd yn hyderus fod y sgiliau gofynnol eisoes o fewn yr adran ac y gellid gwneud y gwaith mewn perthynas â Pholisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol o fewn y cyfyngiadau ariannol.[21]

44. Eglurodd y Gweinidog nad oes costau ymgynghori yn gysylltiedig â datblygu Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a datganiadau ardal gan eu bod yn gorgyffwrdd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut y bydd yr ymgynghoriad a'r rhaglen ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf honno yn llywio gofynion ymgynghori'r Bil hwn.[22]

45. Holwyd y Gweinidog pam nad yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynllun trwyddedu morol yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dywedodd y swyddog gyda'r Gweinidog:

> “… there is a process to go through in terms of consultation and developing the proposals. That would be the appropriate point for setting out those potential costs and benefits, because the detail doesn’t exist at this point.”[23]

46. Pan holwyd y Gweinidog a oedd ganddo unrhyw syniad o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynllun, dywedodd nad oedd yn gwybod gan nad yw wedi ymgynghori ar hynny.[24]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

47. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar eglurhad y Gweinidog mewn perthynas â goblygiadau o ran costau i Lywodraeth Cymru ac mewn perthynas â'r ymgynghoriad.

---

[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Memorandwm Esboniadol, Bil yr Amgylchedd (Cymru)
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraffau 163-167
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 169
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 182
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 189

48. Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch y diffyg manylion am gostau'r cynllun trwyddedu morol. Cred y Pwyllgor y dylai pob deddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad roi syniad o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu pob maes o'r Bil.

**Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn rhoi syniad o'r costau sy'n gysylltiedig â Thrwyddedu Morol.**

# 6. Gwahanu gwastraff

49. Yn eu hymatebion i'r Papur Gwyn ar y Bil, mynegodd rai rhanddeiliaid bryderon ynghylch pa mor ymarferol yw'r gofynion gwahanu gwastraff i fusnesau bach y gallai eu safleoedd fod yn rhy fach i gadw nifer o finiau gwahanol, neu y gallai fod angen iddynt dalu mwy am gontractau ailgylchu newydd. Er y gallai'r gofynion gwahanu leihau'r costau i fusnesau mawr dros amser, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi eu bod yn debygol o gynyddu'r costau i fusnesau sy'n cynhyrchu swm bach o wastraff.[25] At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod, os bydd costau'n cynyddu i fusnesau, gallai hyn gael effaith niweidiol ar eu gallu i gystadlu, yn enwedig os oes ganddynt gystadleuwyr yn Lloegr. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi nad yw'n debygol y bydd rheoliadau o dan y darpariaethau hyn yn cael eu gwneud cyn mis Ionawr 2017.

50. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y byddai'r gostyngiad yn y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn lleihau swm y dreth tirlenwi y mae'n ofynnol i fusnesau rheoli gwastraff ei dalu gan £172.5 miliwn dros y cyfnod o ddeng mlynedd. Nid yw hyn wedi'i gynnwys yn rhai o'r tablau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol am y byddai'n daliad trosglwyddo i'r Trysorlys i ddechrau, ac o fis Ebrill 2018 i Lywodraeth Cymru.

51. Amcangyfrifir y bydd busnesau rheoli gwastraff yn wynebu costau ychwanegol net o £84.3 miliwn yn yr un cyfnod oherwydd y gwaharddiad ar losgi ac anfon deunyddiau penodedig i safleoedd tirlenwi, sy'n golygu y disgwylir i gostau cyfalaf a chostau gweithredu fod yn uwch.

52. Amcangyfrifir y byddai busnesau cynhyrchu gwastraff (sy'n cynnwys safleoedd masnachol a diwydiannol yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus ac elusennau) yn talu costau gweinyddol o £3.3 miliwn i newid i'r system finiau newydd, gan gynnwys prynu biniau newydd yn ogystal â'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chasglu eu deunyddiau gwastraff.

53. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi na ddisgwylir i awdurdodau lleol orfod ysgwyddo unrhyw gostau na manteision

[25] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Memorandwm Esboniadol, Bil yr Amgylchedd (Cymru)

ychwanegol sylweddol yn sgil y cynigion gwahanu gwastraff. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dadlau yn ei ymateb i'r ymgynghoriad: "since the local authority would not be allowed to mix materials once they have been collected separately this could result in significant additional costs".[26]

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

54. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r Gweinidog mewn perthynas â chostau gwahanu gwastraff i safleoedd annomestig. Mewn perthynas â chostau ychwanegol i'r cwmnïau hyn, dywedodd y swyddog gyda'r Gweinidog ei fod yn gweithio'n fasnachol,[27] ac aeth yn ei flaen i egluro:

> "The modelling in the collections blueprint, Chair, is very clear. There is an upfront investment cost, yes, of changing the kit, and Welsh Government is trying to help local authorities in this case with that investment insofar as we can with reduced public expenditure. But all the modelling shows that substantial financial savings kick in after two or three years, and we've estimated a total of between £20 million and £30 million per annum."[28]

55. Dywedodd y Gweinidog na fyddai'r sector gwastraff yn cael ei gefnogi'n ariannol gyda'r costau trawsnewid,[29] ac aeth yn ei flaen i ddweud:

> "I'm sure the market will adapt to that very quickly, because they know the quality of waste collected, as it will be pre-sorted, enhances the provision of opportunity for investment and returns. I do accept that, in changing the process, there is a transitional cost to that, but I'm sure the market will manage that very effectively."[30]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

56. Er bod y Pwyllgor yn cefnogi bwriad y Bil, mae pryder y bydd costau buddsoddi heb eu hariannu yn y byrdymor i fusnesau mewn perthynas â thalu costau casglu gwastraff wedi'i wahanu.  Efallai na fydd rhai cwmnïau gwastraff sydd eisoes yn bodoli yn gallu cael gafael

---

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, EB 22
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 85
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 97
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 103
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 99

ar arian i wneud y buddsoddiad hwn mewn cyfalaf newydd, yn arbennig os nad yw pob math o gasglu gwastraff yn broffidiol yn fasnachol.

**Argymhelliad 6: Hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd y bydd costau ar gyfer y cwmnïau gwastraff hyn yn is yn y tymor canolig i'r hirdymor ac mae'n argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau y gallant barhau i weithredu drwy gydol y cyfnod trawsnewid a bod cyllid ar gael i'r sefydliadau hyn.**

## 7. Cost gweithredu darpariaethau is-ddeddfwriaeth

57. Mae sawl rhan yn y Bil lle nad yw manylion y rheoliadau wedi cael eu penderfynu eto, a byddant yn effeithio'n sylweddol ar y costau:

- Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro y bydd costau cyflawni ar gyfer y targedau newid hinsawdd a'r cyllidebau carbon yn cael eu pennu ar sail y lefelau y caiff y targedau a'r cyllidebau eu gosod, a gaiff eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth. Felly, bydd angen gwerthuso costau a manteision a gofyn am gyngor annibynnol cyn cyflwyno cyllidebau carbon ffurfiol.
- Mae angen rheoliadau i osod isafswm taliadau am fathau eraill o fagiau siopa, yn ogystal â bagiau siopa untro, ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried nifer o opsiynau posibl gan dybio y bydd y pwerau gwneud rheoliadau hyn yn cael eu defnyddio. Mae'r Asesiad yn nodi y byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl arall yn cael ei gynnal os bydd penderfyniad i fynd ar drywydd y bwriad polisi hwn yn y dyfodol.
- O ran Casglu a Gwaredu Gwastraff, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi o dan y Dadansoddiad Opsiynau y caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl ei gynnal ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth.

58. Mae'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngor Bro Morgannwg, CIWM Cymru a CNC yn nodi ei bod yn anodd deall manylion am sut y caiff y Bil ei orfodi o ran gweithredu'r darpariaethau heb reoliadau.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

59. Holwyd y Gweinidog am yr amserlen ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Bil, ac yna rhoddodd amserlen ar gyfer y dyfodol i'r Pwyllgor o ddyddiadau disgwyliedig ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth.[31]

[31] FIN(4)-18-15 P5 – Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

60. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl i'r is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Bil ddilyn y llwybr arferol mewn perthynas â chynnal ymgynghoriad a chostau.[32]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

61. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg syniad o gostau mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn arbennig mewn perthynas â thrwyddedu morol.

**Argymhelliad 7: Hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru ddilyn esiampl y Gweinidog Iechyd yn gyson, a nododd y byddai'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2015 yn cael eu diweddaru wrth i is-ddeddfwriaeth gael ei ddrafftio a'i gostio.**

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2015, paragraff 264

## Atodiad - Tystion

Rhoddwyd tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor gan y tyst a ganlyn ar y dyddiad a nodir. Mae modd gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn dystiolaeth lafar drwy ddilyn y linc:
www.senedd.assembly.wales/documents/s42606/9%20July%202015.pdf

*9 Gorffennaf 2015*

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Carl Sargeant AC | Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol |